



Energy Learning Network
Rhwydwaith Addysg Ynni

Rhedeg Cronfa Ynni Cymunedol

Cefnogaeth awdurdodau lleol i ynni cymunedol

Mae nifer o ffyrdd y gall awdurdodau lleol gefnogi ynni cymunedol, er enghraifft drwy gynnig adnoddau, capasiti, mynediad at safleoedd cynhyrchu ac at rwydweithiau rhanddeiliaid.

Gallent hefyd fod yn gwsmer ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gan ynni cymunedol. Yn gyfnewid, gall grwpiau ynni cymunedol helpu cynghorau i gyrraedd eu targedau sero net, adeiladu cyfoeth cymunedol a nodau cydraddoldeb. Mae partneriaethau o'r fath yn hyrwyddo penderfyniadau mwy cynhwysol a chanlyniadau teg, gan ddatblygu atebion lleol sy'n cael eu siapio gan flaenoriaethau ac uchelgeisiau'r gymuned.

Mae'r Rhwydwaith Addysg Ynni yn cynhyrchu cyfres o astudiaethau achos i ddangos sut mae cynghorau gwahanol yn cefnogi ynni cymunedol a'r gwersi a ddysgwyd gan bob un.

Gorffennaf 2025 – Awdur: Ashden, Emma Jones

Bwrdeistref Llundain Southwark

Yn 2023, fel rhan o gynllun gweithredu hinsawdd diweddaraf y cyngor, cyhoeddodd Bwrdeistref Llundain Southwark gronfa ynni cymunedol newydd gwerth £400k. Mae'r gronfa wedi'i chynllunio i gefnogi gwaith cymunedol ar ynni gwyrdd, gan gyfrannu at leihau allyriadau carbon a chefnogi targed sero net y cyngor.

Mae grantiau o hyd at £50k ar gael i elusennau a grwpiau dielw gyda nodau elusennol, sydd wedi'u lleoli neu'n gweithredu o fewn Southwark, i gefnogi prosiectau ynni cymunedol sy'n canolbwyntio ar adeiladau cymunedol. Mae cyllid hefyd ar gael i helpu grwpiau o drigolion neu gymdigion i ddod at ei gilydd a ffurfio grŵp neu gwmni ynni cymunedol.

Dyfarnwyd y rownd gyntaf o gyllid yn 2024 i 22 o brosiectau gan gynnwys:

- Systemau gwresogi adnewyddadwy newydd mewn clwb ieuenctid, gan ddefnyddio technoleg is-goch
- Uwchraddio goleuadau LED ar gyfer eglwys, neuadd gymunedol a chyfleuster tai cymdeithasol bach
- Cyfres o weithdai tlodi tanwydd a ddarparodd addysg, ymwybyddiaeth a grymuso ar faterion ynni i fenywod a merched yn y fwrdeistref
- Astudiaeth ddichonoldeb i dechnolegau carbon isel a mesurau arbed ynni ar gyfer cyfleuster cymunedol.
- Astudiaethau dichonoldeb ar gyfer prosiect solar to sy'n eiddo i'r gymuned

Lansiwyd ail rownd o £400,000 yn 2025, gyda'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yn gynnwys ym mis Ebrill.

Gwahoddwyd ymgeiswyr i wneud cais am un o bedwar llif sy'n cwmpasu gwahanol gamau datblygu prosiect:

1. Datblygiad cyn-ddichonoldeb
2. Astudiaethau dichonoldeb ar gyfer prosiectau newydd a datblygu achosion busnes
3. Cyllid cyfalaf ar gyfer gweithredu a chyflwyno prosiectau
4. Adeiladu capasiti, hyfforddiant, digwyddiadau ac ymgysylltu

“Mae llwyddiant ein rownd gyntaf wedi dangos bod awydd mawr am weithredu hinsawdd dan arweiniad y gymuned. Gyda rownd arall o gyllid, rydym yn parhau i gefnogi'r uchelgais hon ac yn helpu ein grwpiau cymunedol i fynd i'r afael â allyriadau carbon, arbed arian, a lleihau tlodi tanwydd.”

Cynghorydd John Batteson, Aelod Cabinet y Cyngor dros Argyfwng Hinsawdd, Swyddi a Busnes

Effaith

Mae'r effaith yn cael ei hasesu drwy fonitro prosiectau; mae'n ddyddiau cynnar o ran cyflwyno prosiectau, ond mae enghreifftiau cychwynnol o effaith yn cynnwys:

SEI solar

Mae SEI Solar yn gymdeithas budd cymunedol wedi'i lleoli yn Southwark. Maent yn gosod paneli solar ar doeon yn eu cymdogaeth, gyda'r ynni'n cael ei brynu gan fusnesau lleol a'r elw'n cael ei ddefnyddio i gefnogi pobl yn y gymuned sy'n byw mewn tlodi tanwydd. Roedd y sefydliad yn fusnes newydd pan gysylltodd gyntaf â'r cyngor, ac yn wreiddiol sicrhodd gyllid o'r Gronfa Ynni Cymunedol yn Lloegr. Defnyddiwyd hyn i gyflogi dau aelod o staff rhan-amser, a alluogodd iddynt gynyddu eu gweithgarwch yn sylweddol.

Darparodd Cronfa Southwark grant hefyd i SEI i gynnal dwy astudiaeth dichonoldeb i osod paneli solar ar ystadau cyngor. Rhoddodd hyn y dystiolaeth angenrheidiol iddynt sicrhau cyllid cyfalaf o ffynonellau eraill, gan gynnwys cyllid o'r Community Infrastructure Levy.

Mae'r ddau brosiect cychwynnol yn cael eu dosbarthu fel datblygiad a ganiateir ac felly nid oes angen caniatâd cynllunio. Trwy swyddog ynni cymunedol y cyngor, mae SEI yn ceisio adeiladu perthnasoedd gyda thimau cynllunio a phriodweddau'r cyngor fel y gellir hwyluso prosiectau yn y dyfodol a allai fod angen caniatâd cynllunio.

Mae cefnogaeth y cyngor wedi mynd y tu hwnt i'r cyllid a ddarparwyd drwy'r Gronfa Ynni Cymunedol. Yn benodol:

- Gwnaeth SEI gais am nifer o brosiectau, nid oedd pob un yn llwyddiannus. Fodd bynnag, gweithiodd y cyngor gyda nhw i wneud cais i'r Greater London Authority (GLA) ar gyfer rhai o'r ceisiadau heb eu hariannu, ac o ganlyniad sicrhawyd cymorth ymgynghori am ddim gan y Carbon Accelerator Programme – cynllun o fewn y GLA.
- Mae swyddog ynni cymunedol y cyngor wedi bod yn gymorth mawr i helpu'r grŵp i ddeall pwy i ymgysylltu â hwy o fewn y cyngor a sut i fynd ati, gan weithredu fel porth i adrannau eraill y cyngor a gwneud y cyflwyniadau angenrheidiol.

Mae'r ffaith bod gan y cyngor strategaeth hinsawdd a pholisïau sy'n cefnogi ynni cymunedol ac yn annog gosod paneli solar ar doeau'r ystad gyngor wedi bod o gymorth mawr i alluogi gwaith SEI.

“Roedd y cyllid capasiti a dderbyniwyd gan Gronfa Ynni Cymunedol Southwark yn drawsnewidiol. Cyn hynny, roeddem yn dibynnu'n gyfan gwbl ar wirfoddolwyr. Mae gennym bum noddwr gwahanol, gan ddarparu cyfanswm o £200,000, ac mae cael y staff rhan-amser hyn wedi ein galluogi i reoli'r pum llif ariannu gwahanol ac unrhyw beth sy'n gysylltiedig â nhw. Ni fyddem wedi gallu rheoli gwaith ar y raddfa hon pe baem wedi parhau i ddibynnu'n gyfan gwbl ar wirfoddolwyr.”

“Mae pobl yn gallu gweld bod ein gwaith yn cyd-fynd â gwaith y cyngor; rydym yn darparu pethau y mae'r cyngor eu heisiau. Mae hynny'n ein helpu i gael hygyrddedd ac yn rhoi cyfiawnhad cryf dros ein gwaith.”

Chris Brown, Cyfarwyddwr SEI


SE24 (Ynni Cynaliadwy 24)

Sefydliad cymunedol nid er elw yw SE24, a sefydlwyd fel Cymdeithas Budd Cymunedol, gyda'r prif weithgareddau yn Southwark. Buont yn rhan o bum cais grant yn rownd gyntaf y cyllid; llwyddodd dau ohonynt, y ddau ar gyfer grantiau cyfalaf.

Roedd y cyntaf yn grant cymharol fach ar gyfer gosod goleuadau LED newydd ar gyfer sefydliad sy'n darparu lle i'r gymuned eglwysig ac ychydig o dai cymdeithasol. Mae'r LEDs yn lleihau defnydd trydan tua 58%, gan arbed tonnell o garbon a dros £26,000 dros 10 mlynedd, gydag ychydig yn cael eu rhoi i denantiaid y tai cymdeithasol.

SE 24 Mae ynni cynaliadwy wedi cyflawni llawer mewn 10 mlynedd.

Wedi'i ddiweddarau o Ch2 2025




7 prosiect solar ar y to sy'n cynhyrchu trydan adnewyddadwy yn Ne Llundain

Cynhyrchwyd tua 285 MWh y flwyddyn, sy'n cyfateb i ddefnydd > 100 o gartrefi



Arbedion Cost Ynni Oes ar gyfer trigolion, ysgolion, eglwysi ac ysbytai lleol

Dros £1 miliwn o arbedion oes o brosiectau cyfredol.



Allryiadau CO₂ wedi'u hosgoi, gan helpu i frwydro yn erbyn cynhesu byd-eang

Dros 200 tonnell o CO₂ yn cael ei osgoi bob blwyddyn, sy'n cyfateb i dynnu > 110 o gerbydau oddi ar y ffordd



Dros 300 o gartrefi lleol sy'n dioddef o dlodi tanwydd yn cael eu cefnogi drwy ein Cronfa Gymunedol*

Bron i £25,000 wedi'i dalu



Dros 3,00 o fylbiau golau LED wedi'u gosod mewn pedair ysgol ac un safle eglwys/cymunedol

Defnydd o drydan, biliau ac allyriadau CO₂ is.



Mae'r ddelwedd uchod yn dangos goleuadau LED a ariennir gan SCEF yn Neuadd Ganol Bermondsey

*Arbedodd ein cyfraniad 2024 o £4,250 drwy Groundworks bron i £27,000 i 133 o gartrefi.

Roedd yr ail grant yn fwy - £50,000 000 tuag at gost prosiect solar to ar raddfa fawr yn Harris Girls Academy East Dulwich. Mae'r grant yn cynrychioli tua 3% o gost y prosiect; mae'r gweddill yn dod o fuddsoddwyr cymunedol (gyda nifer ohonynt yn lleol, ac yn derbyn 4% llog ar eu buddsoddiad). Gyda chefnogaeth y grant, bydd SE24 yn ariannu'r prosiect cyfan (heb gost i'r ysgol) gan godi tâl am drydan o'r paneli i'r ysgol sy'n 30% yn rhatach na thrydan o'r grid. Dros 25 mlynedd, mae disgwyl i'r arbedion o'r paneli fod gwerth £350 mil i'r ysgol, gyda'r offer solar yn cael eu rhoi i'r ysgol ar ôl 16 mlynedd (erbyn hyn bydd y buddsoddwyr cymunedol wedi adennill eu buddsoddiad).

Mae ychydig o oedi wedi bod ar gyfer y cytundeb les ar gyfer y paneli. Y cyngor yw landlord yr ysgol ac roedd angen iddynt rhoi caniatâd ar gyfer y cytundeb, ynghyd â'r Adran Addysg. Mae'r rhan hwn o'r cyngor yn adran wahanol i'r un sy'n gweithredu'r Community Energy Fund, ac mae'n cymryd ychydig o amser i gael cytundeb. Mae'r cyngor a SE24 yn bwriadu adolygu'r broses i weld sut fedrith pethau weithredu'n fwy llyfn yn y dyfodol. Mae'n debygol nawr y bydd y gosodiad wedi'i gwblhau erbyn diwedd gwlybiau'r haf 2025.

“The Fund is massively welcome. We’ve had a good relationship with the council going back before the fund, but the Fund has really helped us scale up our ambitions. It’s fantastic that the Fund gives two years for capital projects to be completed – that flexibility is really helpful.”

“In terms of advice for other councils: it’s really helpful if the Council can lend support to any application to the Department for Education for solar lease agreements on schools.”

Paul Hallas, SE24 Director

Beth wnaeth gweithio?


Yn allweddol i gychwyn y Gronfa oedd ewyllys wleidyddol, gyda'r aelod cabinet perthnasol yn gwthio'n gryf i'w wireddu.

Mae'r grwpiau ynni cymunedol yn dweud bod y canlynol wedi bod yn allweddol i lwyddiant y Gronfa:

- Rhoi cyngor a chefnogaeth i sefydliadau wrth iddynt lunio eu cais.
- Cynnig dwy flynedd ar gyfer cwblhau prosiectau cyfalaf; mae'r hyblygrwydd hwn yn hynod ddefnyddiol ar gyfer prosiectau cymhleth sy'n gofyn am ymgysylltu â rhanddeiliaid a threfniadau cyfreithiol fel cytundebau les.

Roedd y rownd gyntaf wedi'i thanysgrifio fwy na dwywaith, fel y dangosir.

Canlyniad SCEF Mai 2024 (£)



Pa adnoddau oedd eu hangen?

Ariannu

Mae £400,000 wedi'i neilltuo i'r gronfa ar gyfer pob un o Flwyddyn 1 a 2, o Gronfa Cyfalaf Hinsawdd y Cyngor, sy'n cynnwys swm sylweddol a neilltuwyd o gronfeydd wrth gefn y Cyngor.

Efallai y bydd y Cyngor yn ystyried defnyddio arian o'u Cronfa Gwrthbwysu Carbon (y maent yn cyfeirio ati fel eu Cronfa Adeiladau Gwyrdd) i gefnogi rowndiau yn y dyfodol o Gronfa Ynni Cymunedol Southwark.

Be yw Cronfa Gwrthbwysu Carbon?

Mae Cynllun Llundain yn ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad mawr fod yn garbon net sero erbyn 2030, gyda chronfeydd gwrthbwysu carbon yn chwarae rhan wrth gyflawni'r targed hwn. Lle na all datblygwyr gyflawni allyriadau sero carbon ar y safle ar gyfer prosiect newydd, mae'n rhaid iddynt gyfrannu'n ariannol i gronfa sy'n cefnogi prosiectau lleihau carbon ar draws y ddinas. Defnyddir y cronfeydd hyn i wrthbwysu'r allyriadau o'r datblygiad drwy fuddsoddi mewn mentrau sy'n lleihau allyriadau carbon mewn mannau eraill, gan helpu Llundain i gyflawni ei thargedau carbon net sero. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol fonitro a chyflwyno adroddiad blynyddol ar weithrediad eu cronfeydd gwrthbwysu carbon. Gellir gwario hyd at 10% o'r Gronfa Gwrthbwysu Carbon ar weinyddiaeth.

Amser Staffio

Mae rheoli'r Gronfa'n cymryd tua 75% o amser un swyddog llawn amser, ynghyd â chefnogaeth gan gydweithwyr gan gynnwys:

- Intern i gefnogi gyda'r broses o ymgeisio a gwerthuso ceisiadau (wedi'u darparu drwy gynllun gan y cyngor i roi cyfleoedd interniaeth i raddedigion sy'n byw yn y fwrdeistref).
- 8–10 o swyddogion o dîm ehangach newid hinsawdd y cyngor, pob un yn cyfrannu ychydig oriau o gefnogaeth i asesu ceisiadau yn gychwynnol.
- Ychydig o fewnbwn gan gydweithwyr yn yr adrannau cyfreithiol ac ariannol.
- Mewnbwn gan dîm cyfathrebu'r Cyngor, gan gynnwys: rhoi gwybodaeth am y gronfa ar-lein; trefnu sesiwn lansio gwybodaeth ar-lein; hyrwyddo drwy amrywiol rwydweithiau.

Ar ôl yr asesiad cychwynnol, caiff ceisiadau eu hadolygu gan banel – gan gynnwys cynrychiolwyr o'r cyngor, y GLA, a bwrdeistref arall yn Llundain.

“Mae'n ddefnyddiol cael rhwydwaith da o gysylltiadau fel y gallwch wahodd pobl â'r sgiliau a'r safbwyntiau perthnasol i eistedd ar y panel.”

Rachel Gates, Rheolwr Prosiect Newid Hinsawdd ac Ynni



Unrhyw rwystrau?

Cefnogaeth gan adrannau gwahanol

Mae gan y Gronfa gefnogaeth gref ar lefel uwch. Fodd bynnag, mae wedi bod yn heriol sicrhau bod yr ewyllys wleidyddol yn cyrraedd swyddogion mewn adrannau eraill. Mae tîm Cronfa Ynni Cymunedol wedi wynebu heriau wrth geisio cael timau eraill i weithredu, megis delio â'r trwyddedau sydd eu hangen ar gyfer gosod paneli solar ar eiddo les.

I helpu gyda hyn, mae'n ddefnyddiol edrych ar y strwythurau sydd eisoes yn bodoli yn y cyngor ac sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol, a cheisio eu hintegreiddio i ran o'r broses fewnol ar gyfer cyflawni prosiectau ynni cymunedol – er enghraifft Children's Services Capital Board neu Housing Major Works.

Mae'n bwysig sicrhau bod y rhanddeiliaid hyn yn ymwybodol o'r gronfa ac o'r hyn rydym yn ceisio'i gyflawni. Mae hefyd yn ddefnyddiol cyflwyno rhaglen gyda chyfnodau arwain clir fel y gallant ddeall y darlun ehangach ac edrych ar sut mae eu tîm yn ffitio i mewn, ble a phryd mae angen mewnbwn o ran adnoddau.

“Os ydych chi'n cadw adrannau eraill a grwpiau rhanddeiliaid yn hysbys ac wedi'u cynnwys ynglŷn â'r Gronfa, yna pan fyddwch chi angen rhywbeth ganddynt, byddant yn fwy tebygol o ymateb yn gyflym.”

Rachel Gates, Rheolwr Prosiect Newid Hinsawdd ac Ynni,
Bwrdeistref Llundain Southwark

Adeiladau dan berchnogaeth y cyngor o gymharu ac adeiladu o dan les

Mae'n bwysig deall bod gwahaniaeth sylweddol rhwng adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor ac adeiladau sydd wedi'u rhentu o ran risg ac atebolrwydd. Ar gyfer adeiladau lle mae'r cyngor yn rhydd-ddeiliad, mae'r cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw'r adeilad ac mae'r risg ac atebolrwydd wrth wneud prosiect yn cynyddu'n sylweddol. Yn groes i hynny, bydd ysgol sydd â les dros 100 mlynedd yn gyfrifol am y risg, ac mae'n debygol y bydd y Cyngor yn fwy hyblyg ynghylch prosiectau yn yr achosion hyn.

(Hyd yma, nid yw cynllunio wedi bod yn broblem ar gyfer unrhyw un o'r prosiectau a gefnogwyd drwy'r Gronfa, gan nad yw'r prosiectau'n cael eu cynnal ar adeiladau sydd â chyfyngiadau arnynt. Fodd bynnag, mae'r tîm wrthi'n datblygu map proses i nodi sut y byddant yn ymgysylltu â swyddogion cynllunio lle bo angen.)

Gwersi wedi'i ddysgu

Marchnata

Mae'r Cyngor yn bwriadu cynyddu'r ymdrechion marchnata ar gyfer y rownd nesaf er mwyn sicrhau llif da o brosiectau, gan ddarparu cefnogaeth ychwanegol i ymgeiswyr unigol nad oes ganddynt bartneriaethau ynni cymunedol ar waith. Gallai hyn gynnwys cynnal sesiynau mewn cyfarfodydd penodol o Gymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr, yn ogystal ag mewn digwyddiadau gyda'r sector gwirfoddol – er enghraifft trwy Community Southwark – er mwyn annog amrywiaeth ehangach o geisiadau. Maent hefyd yn gobeithio cynnig cymorth ar sut i gynnal arolwg ynni lefel uchel, gan gynnwys deall eu defnydd o ynni a chael dealltwriaeth well o'u hadeilad.

“Rydym am gynnig cymorth llawer mwy manwl, yn enwedig yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran tanwydd yn ein bwrdeistref, er mwyn helpu'r cymunedau hynny a'r ymgeiswyr posibl i ymrumuso eu hunain.”

Rachel Gates, Rheolwr Prosiect Newid Hinsawdd ac Ynni, Bwrdeistref Llundain Southwark

Cefnogaeth gyda cheisiadau

Mae'r cyngor yn cynnig sesiynau un i un (wyneb yn wyneb yn swyddfeydd y Cyngor neu dros y we) i gefnogi ymgeiswyr gyda'u ceisiadau; mae rhain wedi gweithio'n dda wrth hybu ceisiadau o safon uchel.

Application process

Ar gyfer y round gyntaf roedd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno dogfen Word. Ar gyfer yr ail rownd, roedd y ffurflen ar-lein; roedd hyn yn llawer haws i'w brosesu gan fod modd allforio a thrin y data'n rhwydd. Fodd bynnag, roedd nifer o broblemau technegol, yn rhannol oherwydd bu'n rhaid datblygu'r ffurflen yn gyflym. Maent yn awgrymu caniatáu amser i brofi a mireinio unrhyw ffurflen cyn gwahodd ceisiadau.

Mae Bwrdeistref Llundain Hounslow wedi cynhyrchu siart llif defnyddiol ar yr hyn y mae angen ei wneud i baratoi cais – mae Southwark yn edrych ar gynhyrchu rhywbeth tebyg ar gyfer eu rownd ariannu nesaf. Gwnaeth Bwrdeistref Hounslow gynhyrchu siart llif ddefnyddiol ar yr hyn y mae angen ei wneud i baratoi cais – mae Southwark yn edrych ar gynhyrchu rhywbeth tebyg ar gyfer eu rownd ariannu nesaf.

Gwybodaeth ddefnyddiol

- Rhagor o wybodaeth ar Gronfa Ynni Cymunedol **Southwark**.
- Am gwestiynau penodol nad yw'n cael eu hateb yn yr astudiaeth achos neu gan y dolenni uwchlaw, cysylltwch â: Rachel Gates, Rhwolwr Prosiect Newid Hinsawdd ac Ynni - **Rachel.Gates@southwark.gov.uk**
- Mae Community Energy London wedi cynhyrchu canllaw ar sut i greu **Cronfa Ynni Cymunedol i Awdurdodau Lleol**.

Diolchiadau

Rydym yn ddiolchgar i Rachel Gates (LB Southwark), Paul Hallas (SE24) a Chris Brown (SE1) am roi eu hamser i helpu ni greu'r astudiaeth achos hon.

Rhwydwaith Addysg Ynni

Mae'r rhwydwaith yn gydweithrediad rhwng yr elusen datrysiadau ynni Ashden, y Centre for Sustainable Energy, a chyrrff ynni cymunedol blaengar ym mhob un o genhedloedd y DG: Community Energy England, Community Energy Scotland, Community Energy Wales ac Action Renewables Gogledd Iwerddon.

Ymwelwch â gwefan eich sefydliad aelodaeth ynni cymunedol lleol am ragor o adnoddau i'ch helpu ar eich taith ynni cymunedol. Mae gan y Centre for Sustainable Energy hefyd lu o adnoddau a chanllawiau a fydd yn eich helpu ble bynnag yr ydych yn y DG.



Gwnaed yn bosibl drwy bedair blynedd o gyllid, sef cyfanswm o £1.5 miliwn, oddi wrth Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Daw'r grant hwn o'r Gronfa Gweithredu Hinsawdd, ymrwymiad o £100 miliwn dros 10 mlynedd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i gefnogi cymunedau ledled y DG i weithredu ar newid hinsawdd ac ennyn ymgyfraniad mwy o bobl mewn gweithredu ar yr hinsawdd. Mae hyn yn llunio rhan o un o bedair cenhadaeth allweddol y cyllidydd yn ei strategaeth ar gyfer 2030, 'Mae'n dechrau gyda chymuned' – cefnogi cymunedau i fod yn amgylcheddol gynaliadwy.



www.ashden.org/rhwydwaith-addysg-ynni

Holl cynnwys © 2025 Rhwydwaith Addysg Ynni.



Energy Learning Network
Rhwydwaith Addysg Ynni